# Swydd-ddisgrifiad Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Cyfathrebu** |
| **Band cyflog:** | **Uwch-gynghorwr** |
| **Ystod cyflog:**<br>**(pro-rata)** | **£42,904 - £55,159**<br>Disgwylir i bob aelod newydd o staff ddechrau ar raddfa isaf y band priodol. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **e.e. Uwch-gynghorwr / Uwch-gynghorwr Cyfathrebu** |
| **Cyfeirnod:** | *MBS-099-26* |
| **Swyddfa:** | **Grŵp Reform DU** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos**<br>Bydd angen gweithio rhywfaint gyda'r nos ac ar benwythnosau. |
| **Natur y penodiad:** | **Parhaol**<br>Os bydd Arweinydd y Grŵp yn newid, neu os bydd nifer Aelodau'r Grŵp yn newid, mae'n bosibl y daw'r swydd hon i ben. |
| **Lleoliad:** | **Tŷ Hywel**<br>Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y rôl deithio i wneud gwaith o bryd i'w gilydd. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn: hil, rhywedd, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran. |
| Sylwer, bydd y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Ynglŷn â’r rôl

| Cyfathrebu |
|---|
| Mae deiliaid swyddi cyfathrebu yn gyfrifol am brosesau creadigol, cysylltiadau cyhoeddus, datganiadau i'r cyfryngau, cyfathrebu a chynhyrchu cyfryngau, cyhoeddiadau printiedig ac electronig, dylunio / rheoli cynnwys gwefannau, a’r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r swyddogaeth Gyfathrebu hefyd yn cynnwys cefnogi, cydgysylltu, llunio a rheoli cyfathrebiadau ysgrifenedig, gweledol a digidol. Gall y rolau hyn hefyd gynnwys rheoli a chydgysylltu digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu, yn unol â'r fframweithiau sy'n llywodraethu gweithgarwch yr Aelodau.<br>**Mae’r prif nodweddion fel a ganlyn:**<br>• Cynhyrchu syniadau, ymchwilio, creu, ysgrifennu a chyflwyno amrywiaeth o ddeunyddiau cyfathrebu.<br>• Creu, cefnogi a rheoli ymgyrchoedd ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol.<br>• Darparu cyngor technegol a chyfeiriad i’r Aelodau a staff eraill mewn perthynas â dewis a defnyddio amrywiol gyfryngau cyfathrebu.<br>• Strategaethau cyfathrebu rhagweithiol ac adweithiol.<br>• Datblygu a gweithredu prosiectau gydag asiantaethau amrywiol, gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r sector gwirfoddol.<br>• Meithrin a chynnal perthynas â rhanddeiliaid. |
| **Diben y swydd** |
| Bydd **Uwch-gynghorwr Cyfathrebu** sy’n gweithio i Aelod o’r Senedd yn arbenigwr ym maes cyfathrebu ac yn meddu ar brofiad helaeth. Bydd yn meddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o weithrediad y Senedd a chraffter gwleidyddol sylweddol. Bydd yn gyfrifol am arwain a gweithredu strategaeth gyfathrebu gyffredinol yr Aelod, gan sicrhau bod ei negeseuon yn glir, yn gyson, ac yn effeithiol ar draws pob platfform. Mae hon yn rôl strategol ac uwch, sy'n aml yn cynnwys cysylltu'n uniongyrchol â thîm cyfathrebu canolog y blaid a rheoli cysylltiadau proffil uchel â’r cyfryngau, gan gynnwys ymdrin ag argyfyngau. |

# Manyleb y person

| Sgiliau ac ymddygiadau |
| --- |
| • Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig aeddfed iawn.<br>• Hyfedredd uwch o ran defnyddio offer digidol a TG, gan gynnwys defnyddio meddalwedd swyddfa ac offer rheoli safonol, a defnyddio llwyfannau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol yn hyderus mewn cyd-destun proffesiynol.<br>• Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm mawr a rheoli tîm o staff cyfathrebu uwch, lefel ganol ac iau.<br>• Dealltwriaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a strategaethau cyfathrebu digidol. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** |
| • Y gallu i roi hyfforddiant ar y cyfryngau a chyngor gwybodus i'r Aelodau a chydweithwyr ar ddisgyblaeth negeseuon, strategaethau cyfathrebu.<br>• Arbenigedd sylweddol a gafwyd drwy gymhwyster proffesiynol neu academaidd neu brofiad cyfatebol, y gellir ei gymhwyso ym mhob sefyllfa sy'n berthnasol i waith cyfathrebu a rheolaeth o'r tîm<br>• Profiad sylweddol o faes y cyfryngau, gan ddefnyddio'r arbenigedd hwn i ddatblygu strategaethau cyfryngau blaengar a rhagweithiol. Profiad o gynghori ar gamau gweithredu ym maes y cyfryngau ar lefel uwch a chefnogi timau i ddatblygu ymgyrchoedd.  Gwybodaeth am gyfraith y cyfryngau a dealltwriaeth ohoni.<br>• Dylanwadu ar yr agenda gyfryngau drwy waith cynllunio rhagweithiol. Datblygu strategaethau i ddiogelu a gwella enw da. Gwybodaeth am ddulliau o ymdrin â'r cyfryngau a dealltwriaeth ohonynt, gan gynnwys dylunio a gweithredu strategaeth a chynlluniau cyfathrebu.<br>• Cyfrifoldeb dros reoli tîm amlddisgyblaethol o staff sydd â hanes o lwyddiant o ran sicrhau canlyniadau.<br>*Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:*<br>• Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.<br>*Iechyd, diogelwch a lles:*<br>• Profiad a dealltwriaeth ymarferol o'r gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.<br>*Diogelu:* |

| |
|---|
| • Profiad o roi mesurau diogelu cymesur ar waith mewn perthynas â phlant ac oedolion sy’n agored i niwed. |
| **Meini prawf dymunol** |
| • Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy’n berthnasol i Gymru a’r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.<br>• Yn arddel amcanion a gwerthoedd y blaid.<br>• Trwydded yrru lawn, gyfredol y DU, ynghyd â mynediad at gerbyd sydd wedi'i yswirio at ddibenion gwaith. |
| **Cymwysterau** |
| • Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol, neu brofiad addas arall. |
| **Sgiliau iaith** |
| • Dymunol / Heb fod yn hanfodol: Y gallu i weithio yn Gymraeg a Saesneg.<br>• |

# Prif ddyletswyddau

| **Arweinyddiaeth ym maes cyfathrebu strategol** |
|---|
| • Datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr i’r Grŵp sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau gwleidyddol a buddiannau etholaethol y Plaid.<br>• Cynghori Arweinydd y Grŵp ar negeseuon, delwedd gyhoeddus, a chyfleoedd cyfathrebu pwysig.<br>• Sicrhau naws a llais cyson ar draws pob platfform a chyfathrebu. |
| **Cysylltiadau â’r cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus** |
| • Gweithredu fel prif lefarydd yr Arweinydd a’r Grŵp pan fo angen.<br>• Meithrin a chynnal perthnasau â newyddiadurwyr, golygyddion a darlledwyr.<br>• Rheoli datganiadau i'r wasg, briffiau i'r cyfryngau, cyfweliadau a chyfathrebu mewn argyfwng.<br>• Darparu hyfforddiant cyfryngau: paratoi Aelodau ar gyfer ymddangosiadau yn y cyfryngau, gan gynnwys negeseuon, technegau cyfweliad, a strategaethau gwrthbrofi. |
| **Strategaeth ar gyfer llwyfannau digidol a’r cyfryngau cymdeithasol** |
| • Goruchwylio presenoldeb yr Arweinydd a’r Grŵp ar y cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau cynnwys deniadol o ansawdd uchel.<br>• Rheoli’r gwaith o greu cynnwys digidol, gan gynnwys graffeg, fideos a ffeithluniau.<br>• Monitro tueddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, ymdeimlad y cyhoedd, a gwaith dadansoddi ar y broses ymgysylltu i fireinio’r strategaeth. |
| **Negeseuon seneddol a negeseuon polisi** |
| • Rhagweld y llunio o areithiau proffil uchel, darnau barn, a briffiau polisi.<br>• Sicrhau negeseuon clir ac argyhoeddiadol ar faterion polisi. |
| **Rheoli enw da** |
| • Rhagweld risgiau posibl ym maes cysylltiadau cyhoeddus a datblygu cynlluniau wrth gefn.<br>• Rheoli ymatebion i faterion cynhennus, beirniadaeth gyhoeddus, neu gamwybodaeth.<br>• Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a moesegol â rheoliadau cyfathrebu’r Senedd. |

| Ymgysylltu â rhanddeiliaid a’r cyhoedd |
| --- |
| • Goruchwylio’r gwaith o ymgysylltu â grwpiau cymunedol, busnesau, undebau ac elusennau.<br>• Rheoli ymweliadau, ymgyrchoedd ac ymddangosiadau cyhoeddus sydd â phroffil uchel. |
| **Arwain tîm a chydgysylltu** |
| • Dirprwyo ar ran Pennaeth Staff y Grŵp lle bo angen.<br>• Rheoli eraill yn y tîm cyfathrebu, gan gynnwys swyddogion iau a’r rhai sy’n creu cynnwys digidol.<br>• Dirprwyo tasgau'n effeithiol gan barhau i oruchwylio’r holl waith cyfathrebu.<br>• Cydlynu â thîm cyfathrebu canolog y blaid i sicrhau bod negeseuon yn gyson. |
| **Rhwymedigaethau yn y gweithle** |
| **Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:**<br>• Rheoli'r prosesau a'r trefniadau sy'n galluogi'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Iechyd, diogelwch a llesiant:**<br>• Rheoli'r prosesau a'r trefniadau sy'n galluogi'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Diogelu:**<br>• Rheoli'r prosesau a'r trefniadau sy'n galluogi'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy’n agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol. |
| **Arall** |
| • Gweithredu o fewn y gyfraith a’r fframweithiau rheoleiddio y mae’r Aelodau a’r Grwpiau'n gweithredu o’u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).<br>• Gwneud penderfyniadau pan nad oes fawr ddim cyngor, canllawiau na chynseiliau ar gael, neu pan nad oes cyngor, canllawiau na chynseiliau o gwbl ar gael, yn unol â dymuniadau’r Aelod.<br>• Cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r band hwn, yn ôl yr angen, i gefnogi'r Aelod. |